

Y CYLCHGRAWN CYMRAEG SY'N CROESAWU POB YMDRECH I WARCHOD EIN BYD

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 23 Ebrill / Mai 2011 PRIS: £1

# Byw gyda'r Ddaear

## - y wyrth a'r her

## Awel Aman Tawe'n hybu'r beirdd

## Ieuenctid Botwnnog yn parchu'r byd

## Campws newydd yn ddoeth - ar lan y môr?

ISSN 1755-3504

04

9 771755 350009

**Angharad Penrhyn Jones — Nid peth ymylol yw'r amgylchedd ► Charlotte Davies — Sut y deliwn ag ofnau newid hinsawdd ► Sioned Haf — Ynni cymunedol yn hybu'r celfyddydau ► Haf Elgar — Polisïau Cymru werdd ► *Newyddion am hynt a helynt mudiad y Ddaear***

Cefnogi'r Gymraeg
Investing in Welsh

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com


Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


Croeso i rifyn newydd o gylchgrawn annibynnol **Y Papur Gwyrdd**. Rydym yn falch i fod yn llais Cymraeg i'r twf cyffrous yn yr ymdrechion yng Nghymru, fel ledled y byd, i fabwysiadu ffordd o fyw fydd yn cynnal y Ddaear a'i holl ffurfiau bywyd. Dathlwn y 'pethau bychain' y gallwn ei wneud yn ein bywydau ein hunain at y nod hwnnw — gan gynnwys annog arweiniad pellach ar y pwnc gan wleidyddion a phenaethiaid ein bywyd cyhoeddus.

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Wedi Adroddiad yr arfordir, ai doeth y Campws ger y Lli?



**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies** — Dysgu byw gyda'r Ddaear

**5** TRAFOD CERDD: 'HENO WRTH GYSGU'
**Angharad Penrhyn Jones** — Nid peth ymylol yw'r amgylchedd



**6** SEICOLEG
**Charlotte Davies** — Sut y deliwn ag ofnau newid hinsawdd
**Ennill a Cholli**
Ymgyrch y Ddaear — hanesion o bell ac agos

**7** PROSIECT GWYRDD GWYNEDD
Ieuenctid yn gosod y Byd yn ei le — ar y brig

**8** GWLEIDYDDIAETH
**Haf Elgar** — Wedi'r 'Ie' gwych, maniffesto gwyrdd i Gymru

**9** Y CELFYDDYDAU
**Sioned Haf** — Grŵp Ynni Adnewyddol Awel Aman Tawe'n croesawu'r beirdd

**10** **Daear-iadur**
Beth sy' 'mlaen yng Nghymru?

**11** YSGOLION
Lluniau — Bwrlwm gwyrdd Botwnnog
**Y byd a'r aelwyd**
Tipyn o embaras gyda'r anrheg oleuedig


***MATRESI ORGANIG ABACA , tudalen 12***



## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ..............................................................

CYFEIRIAD: ......................................................

.......................................... Côd Post..................

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ...................
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**

# MANIFFESTO GWYRDD




**WEDI'R fuddugoliaeth wych dros hawliau deddfu uniongyrchol yn Refferendwm y Cynulliad Cenedlaethol ar Fawrth 3, lansiodd Cyfeillion y Ddaear *Maniffesto ar gyfer Cymru Werddach* yn ystod Hawl i Holi Gwyrdd yn Neuadd Brangwyn Abertawe. Cynrychiolwyd y pump prif blaid wleidyddol ar banel yr Hawl i Holi.**

Yn y llun uchod (o'r chwith): Stuart Rice (ymgeisydd Gorll De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol), Dr Dai Lloyd AC (Gorll De Cymru, Plaid Cymru), Gordon James (Cyfarwyddwr, Cyfeillion y Ddaear Cymru), Mark Drakeford (ymgeisydd Gorll Caerdydd, Llafur), Jake Griffiths (Arweinydd, Plaid Werdd Cymru), Owen Meredith (ymgeisydd Caerffili, Ceidwadwyr).

► ***Gellir lawrlwytho*** *Maniffesto ar gyfer Cymru Werddach* ***o wefan: www.foe.uk/cymru.***



Prifysgol Abertawe — ‘ hen’ gampws Singleton

## CYHUDDO’R CYFOETHOG O ELWA TRWY ‘LADRAD MWYAF HANES’

*RHAN o araith gan yr awdur a’r cynhyrchydd ffilm radical Michael Moore mewn rali ym Madison, Wisconsin, UDA, ym mis Mawrth. Mae Llywodraethwr Gweriniaethol y dalaith a’i fryd ar ddiddymu hawliau undebau llafur er bod gweithwyr wedi cynnig derbyn toriadau cyflog a budd-daliadau o 8% yn wyneb ‘argyfwng ariannol’ y wlad:*

“DYW America ddim yn fethdalwr. Yn wahanol i’r hyn hoffai’r bobl bwerus i chi ei gredu gan ildio’ch pensiynau, gwtogi ar eich cyflogau, a derbyn bywyd tebyg i’ch hen-rieni cu, dyw America ddim yn fethdalwr. Ymhell ohoni. Mae’r wlad yn rholio mewn cyfoeth ac arian. Ond nid yn eich dwylo chi. Cafodd ei drosglwyddo, trwy ladrad mwyaf hanes, o’r gweithwyr a’r prynwyr i’r banciau a sefydliadau buddsoddi'r *űber*-gyfoethogion.

“Erbyn heddiw mae gan ddim ond 400 o Americanwyr fwy o gyfoeth na hanner gweddill yr Americanwyr gyda’i gilydd. Gadewch i mi ddweud hynny eto. Mae gan 400 o bobl bechadurus o gyfoethog — yr elwodd y rhan fwyaf ohonynt mewn rhyw ffordd neu’i gilydd o’r ‘achubiaeth’ sawl-triliwn doler a welwyd yn 2008 — fwy o ysbail, stoc ac eiddo na’r cyfan o asedau 155 miliwn gweddill yr Americanwyr gyda’i gilydd ...

“... *[OND]* Peidiwch byth ag anghofio, mor hir ag y deil ein Cyfansoddiad, mai un person un bleidlais ydyw, sef y peth am America mae’r cyfoethogion yn ei gasáu fwyaf. Oherwydd, er mai nhw i bob ymddangosiad sy’n dal yr holl arian a’r cardiau, yn anfodlon maent yn derbyn y ffaith sylfaenol ddi-sigl hon - Mae mwy ohonon ni nag sydd ohonyn nhw.”

ADRODDIAD ROWNTREE’N RHYBUDDIO AM EFFAITH NEWID HINSAWDD AR EIN HARFORDIROEDD ...

# Angen ail-ystyried creu campws mawr ar lan y môr?

**ADRODDIAD Y PAPUR GWYRDD**

**MAE adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree sy’n rhybuddio ynglŷn â bygythiad newid hinsawdd i ardaloedd arfordirol Prydain yn siwr o godi cwestiynau ynglŷn â bwriad Prifysgol Abertawe i godi ail gampws enfawr ar gost o £400 miliwn ar y morfa rhwng aber Afon Nedd a dociau Abertawe.**

Yn yr adroddiad a gyhoeddwyd ar Fawrth 7, mae arfordir de Cymru’n cael ei enwi fel un ymysg nifer sydd mewn perygl arbennig — ynghyd a gogledd-orllewin yr Alban, Swydd Efrog, Swydd Lincoln, Dwyrain Anglia ac aber afon Tafwys.

Honnir gan yr adroddiad nad yw awdurdodau’n talu digon o sylw i bwnc y codiadau yn lefel y môr.

“Dydyn ni ddim wedi treulio digon o amser yn trafod y materion hyn,” medd Jeremy Richardson, un o gyd-awduron yr adroddiad. “Oherwydd ein bod yn sôn am beth sy’n digwydd yn 2050 i 2080, y tueddiad yw i bobl beidio â siarad amdano, ond mae’r arfordir yn mynd i fod ar flaen effeithiau’r newidiadau hinsawdd hyn. Nid sôn yn unig am lifogydd neu sychder ydym, ond hefyd am godiadadau yn lefelau’r môr a mwy o stormydd.”

Wedi i’r adroddiad gael ei gyhoeddi, rhoddwyd cryn sylw i’r cyfeiriadau at y bygythiadau i Lanelli lle mae Llwybr Arfordir y Mileniwm eisoes wedi cael ei ddifrodi gan y môr ynghyd â rhai o dwyni tywod Pembre. Nodwyd yn yr adroddiad bod tai newydd Doc y Gogledd a Machynys wedi cael eu codi ar hen diroedd diwydiannol sydd mewn perygl o godiadau yn lefel y môr, erydiad yr arfordir, a stormydd, a bod cryn bryder yn y dref am y dyfodol.

Ychydig i’r dwyrain, fel adlais o’r Brenin Caniwt, mae Prifysgol Abertawe’n dadlau y bydd **Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd y Bae** yn cyfrannu dros £3biliwn i’r economi ranbarthol dros 10 mlynedd, gan greu miloedd o swyddi o fewn ardal cynllunio De-orllewin Cymru oddi ar Fabian Way sy’n cysylltu Abertawe â’r M4.

Cost y campws 69 erw newydd ar y tywod fydd £400miliwn. Fe’i lleolir ar hen safle tanciau olew BP sy’n cael ei chyflwyno’n rhodd i’r Brifysgol gan y cwmni ynghyd â £10miliwn i’r prosiect.

“Gan barchu a chyfoethogi’r amgylchedd naturiol o’i amgylch,” medd y Brifysgol yn ofalus, “byddai’r datblygiad arfaethedig yn cynnwys adeiladau academaidd/diwydiannol ac ymchwil cysylltiedig â chyfleusterau addysgu, llety preswyl i fyfyrwyr a staff, a chyfleusterau adwerthu a hamdden i staff a myfyrwyr cysylltiol.”

Disgwylir y bydd 5,000 o fyfyrwyr yn gwneud defnydd o’r campws newydd. Bydd llety am 4,000 yn y fan a’r lle — a thraeth yn ogystal. Bydd y campws enfawr ychydig y tu fewn i ffiniau sirol Castell-nedd Port Talbot, er mawr ddicter cynghorwyr Abertawe.

Gan adlewyrchu rhai pryderon a fu eisoes dan ystyriaeth ynglyn â llifogydd posib, mae uwch-swyddogion Prifysgol Abertawe’n derbyn y bydd angen cryfhau morgloddiau a chodi lefel y safle wrth gloddio i’r tywod.

Yng ngeiriau’r Brifysgol: “Bydd codi’r tir yn gynnyrch y maint o ddefnydd fydd yn cael ei dynnu wrth gloddio’r sylfeini a’r twyni tywod, a fydd hefyd yn lliniaru’r broblem o berygl llifogydd posibl ar y safle. Rhagwelir y caiff y safle ei godi 0.5 -1.5m i leiafswm lefel ledled y safle o 7.0 metr uwchlaw data ordnans (mAOD) fan isaf, ac felly uwchlaw'r lefelau llif arfordirol a ragwelir.”

Mae awduron adroddiad Joseph Rowntree’n nodi “y gall cyfanswm y codiadau mewn lefelau’r môr oddi ar arfordir y DG fod yn fwy nag un medr— o bosib yn cyrraedd cymaint â dau fedr ” ... gyda stormydd ffyrnicach yn ychwanegu at hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo cyfrannu £15miliwn i’r prosiect. Gwnaed hynny ar ôl bygythiadau gan BP, a phwysau cryf gan dri gwleidydd lleol oedd yn cyhuddo LlCC o ‘oediad’ na chafwyd esboniad llawn amdano. □

## Rhaid dysgu sut i fyw bywydau sy’n llesol i’r Ddaear

**“Rydym wedi bod yn byw ein bywydau gan gredu bod yr hyn sy’n dda i ni hefyd yn dda i’r byd. Roeddem yn anghywir. Rhaid i ni newid ein bywydau gan ddeall rhywbeth hollol wahanol, sef bod yr hyn sy’n dda i’r byd hefyd yn dda i ninnau. Bydd hynny’n galw am ymdrech gennym i ddod i adnabod y byd a dysgu beth mae bod yn dda iddi hi yn ei olygu.”**

***Wendell Berry, ffarmwr, llenor ac amgylcheddwr o Kentucky***

**GOLYGYDDOL** **HYWEL DAVIES**



# Dysgu byw gyda'r Ddaear — gan dderbyn y wyrth a'r her sy'n ein cynnal

**YN ôl yr hanes yn ein crefydd Gristnogol draddodiadol ni, cerddodd Iesu Grist ar y môr wrth dawelu'r storm. Cyfeirir at y weithred fel 'gwyrth' gan ei fod yn groes i'n dealltwriaeth wyddonol.**

Ond mae gan y Bwdhydd cyfriniol cyfoes Thich Nhat Hanh ymateb trawiadol i'r stori honno. Meddai fe, "Dw i ddim yn credu mai'r wir wyrth yw cerdded ar y dŵr ... ond cerdded ar y Ddaear."

Mae Thich Nhat Hanh yn esbonio bod pob peth a wnawn yn haeddu ystyriaeth ofalus. Yn sicr, byddai'n fuddiol i ni dalu sylw i'w neges mai dim llai na gwyrth ydyw ein bod yn cerdded ar y Ddaear. Mae dod i'r ddealltwriaeth honno'n



ganolog i unrhyw obaith y gallwn gynorthwyo cenedlaethau'r dyfodol i barhau i fwynhau bywyd ar y blaned hon.

Ystyriwch y wyrth fwyaf: esbonia gwyddonwyr wrthym ein bod yn byw ein bywydau-pob-dydd ar blaned sy'n rhuthro o gwmpas yr Haul ar gyflymder o 67,000 milltir yr awr. Ar ben hynny, meddant, mae'r Ddaear yn rhan o alaeth y Llwybr Llaethog sy'n chwyrlio trwy'r gofod ar gyflymder o 1.3 miliwn milltir yr awr i gyfeiriad galaethiau Leo a Virgo tuag at ardal sy'n dwyn yr enw *spooky* braidd Y Deniadwr Mawr.

Ydyn, mae ffeithiau felly'n gosod pob math o bethau mewn persbectif. Mae pethau 'pwysig' – e.e. twf economaidd, elw corfforaethol — yn troi'n ddibwys; mae pethau 'ymylol' – e.e. cydfyw heddychlon – yn dod yn ganolog.

Yn ogystal â deall ein bod yn deithwyr ar long ofod, rydym wedi cael ein hatgoffa sawl gwaith yn ddiweddar bod ein cynhaliaeth ar y llong yn wyrthiol ynddo'i hun. Mae'r grymoedd sy'n cadw'r blaned yn blaned, hefyd yn gallu chwalu bywyd dynol mewn amrantiad.

Mae'r daeargryn a drawodd Christchurch, Seland Newydd, yn Chwefror, ac yna'r daeargryn a'r tsunami anferth a chwalodd ardaloedd poblog yn Siapan ar ddechrau Mawrth yn dystiolaeth frawychus o drist o ba mor fregus yw ein sefyllfa ar y Ddaear.


Pwerau anferth byd natur ydy symudiadau aflonydd y creigiau a'r hylifau poeth tanddaearol. Trwy waith ein gwyddonwyr, gallwn geisio rhybuddio'n gilydd amdanynt, ond fyddwn ni fyth yn gallu eu rheoli.

Ond mae 'na systemau naturiol eraill sy'n hanfodol i ni fel dynoliaeth yr ydym bellach yn effeithio'n sylweddol arnynt oherwydd twf ein niferoedd a natur ddifrodol ein ffordd o fyw. Dyna wres yr atmosffer a'r moroedd, glendid yr awyr, dŵr croyw, pridd ffrwythlon, y planhigion, yr anifeiliaid a'r pysgod. Mae presenoldeb y cyfan yn y cydbwysedd sydd wedi'n cynnal yn ddim llai na gwyrth.

Ond, fel mae Wendell Berry'n rhybuddio yn y dyfyniad ar dudalen 3, mae angen dybryd i ni ddysgu parchu'r systemau naturiol hyn yn ein bywydau os ydynt i barhau i'n cynnal ymhellach. Ar hyn o bryd, rydym yn niweidio pob elfen o'r we ryfeddol sy'n ganolog i'n parhad i'r dyfodol.

Mabwysiadwn agwedd newydd at y Ddaear, felly, gan adlewyrchu rhai o agweddau mwy gwaraidd y gorffennol. Dysgwn fyw gyda'r Ddaear, yn lle ei hysbeilio. Dyma'r her enfawr ond hanfodol all ein hysbrydoli i wneud beth y medrwn i leihau ar y nwyon sy'n cynhesu'r atmosffer, ar y cemegau sy'n halogi'r awyr, ar yr amaethu dwys sy'n sugno'r maeth naturiol o'r pridd, ar y niwed a'r dinistr i blanhigion, anifeiliaid a physgod.

Os derbyniwn ein bodolaeth ar y Ddaear fel y wyrth y mae, ac os dysgwn sut i fyw'n waraidd gan ofalu am ein gilydd, gallwn fod yn rhan o barhad y wyrth. Ond os gadawn i flaenoriaethau diwydiannol, ariannol a *realpolitik* reoli'n bywydau, gwahanol iawn fydd y stori. Fel mae Thich Nhat Hanh yn ein cynghori, mae gwir angen i bawb ohonom roi ystyriaeth ofalus iawn i'r angen i fyw gyda'r Ddaear. Gwnawn hynny yn lle ymosod arni am ei hadnoddau neu ruthro i ddatblygiadau sydd â chwestiynau mawr amdanynt megis atomfeydd, cnydau GM — neu brosiectau adeiladu mawreddog ar lan y môr.



NID yn hawdd y llwyddwn i ddiosg yr arferion sydd wedi gwneud difrodi'r ddaear a chydweithio gyda llywodraethau gormesol yn sail i'n cyfoeth fel gwledydd 'datblygedig'. Rydym wedi dysgu cau ein llygaid i'r ddau a mwynhau'r breintiau. Mwy o reswm, felly, i ni groesawu pob ymdrech i hybu gwerthoedd fydd yn creu gwell fyd i ni gyd. Eisoes yn **Y Papur Gwyrdd**, rydym wedi bod yn falch i dynnu sylw at arweiniad pwysig grwpiau ynni cymunedol Cwm Arian ac Awel Aman Tawe am eu gwaith yma yng Nghymru yn hyn o beth. Yn y rhifyn hwn, rydym yn falch arbennig i nodi prosiect Awel Aman Tawe i asio'r celfyddydau gyda mudiad y Ddaear. Roedd llwyddiant eu noson wobrwyo beirdd newid hinsawdd (tud 9) yn un o nifer o arwyddion sy'n awgrymu bod gweledigaethau newydd yn egino yn ein plith ynglŷn â phwysigrwydd gwarchod y Ddaear ac adfywio cymunedau rhydd.

DATHLWN yr IE mawr a gafwyd yn Refferendwm ein Cynulliad Cenedlaethol. Dyma gam cyffrous ymlaen yn hanes Cymru. Dyma her i genhedlaeth newydd o wragedd a gwŷr galluog godi o'n plith i'w gwasanaethu. A dyma gyfle i ddiolch i'r **Western Mail** am ei harweiniad ardderchog yn ystod yr ymgyrch. Nid nhw'n unig ymhlith y cyfryngau oedd yn hael eu sylw i'r ochr negyddol prin eu sylwedd. Ond nhw'n unig oedd yn ddewr a chadarn eu hanogaeth bod llywodraethu mwy effeithiol ac atebol yn dibynnu ar fynnu cyfrifoldebau deddfu i Gymru. I wlad mor dlawd ei gwasg, profodd y **Western Mail** mai hi yw ein papur cenedlaethol.

**Ewch at y Wê-Borth Gymraeg**
**i'r Mudiad Ecolegol Byd-eang**

**GWEFAN Y PAPUR GWYRDD**

**www.ypapurgwyrdd.com**

Cymru a'r Ddaear * Gwyddoniaeth
Ymgyrch Cymru * Cysylltiadau

ENILLYDD CYSTADLEUAETH FARDDONIAETH YN HERIO'R CYFRYNGAU …

# 'Nid pwnc ymylol yw'r amgylchedd!'



**ENILLYDD ADRAN GYMRAEG CYSTADLEUAETH AWEL AMAN TAWE AM GERDDI'N YMDRIN Â NEWID HINSAWDD OEDD ANGHARAD PENRHYN JONES. YN YR ERTHYGL HON, MAE ANGHARAD YN YMDRIN Â'R SYNIADAU SY'N SAIL I'W CHERDD, *HENO, WRTH GYSGU***

**RO'N i'n bymtheg mlwydd oed y tro diwethaf i mi ysgrifennu cerdd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y gerdd, o'r enw** Yfory, **yn ymdrin â'r berthynas dreisgar rhwng ein gwareiddiad modern a'r byd naturiol.**

Ar ddiwedd y gerdd mae disgrifiad o'r goleuadau stryd wedi diffodd — 'wedi eu dinistrio gan eu hegni eu hunain' — a'r byd wedi troi'n dywyll. A disgrifiad o'r lleuad wedyn, yn ddiogel 'yn lloches ei wrthban du', yn 'taflu ei lewyrch tyner dros y sgerbydau.'

Doedd hi ddim yn gerdd ysgafn, a dweud y lleiaf, a doedd fy rhieni ddim yn siŵr iawn sut i ymateb iddi. Mi yrrais y gerdd at gystadleuaeth Eisteddfod yr Urdd, ac ennill gwobr cydradd-gyntaf. Menna Elfyn oedd y beirniad.

Bron i ugain mlynedd yn ddiweddarach, gwelais nodyn yn **Y Papur Gwyrdd** yn hysbysebu cystadleuaeth farddoniaeth Awel Aman Tawe, ar thema sy'n agos at fy nghalon: newid yn yr hinsawdd. A Menna Elfyn yn beirniadu unwaith eto. Penderfynais roi tro arni.

**PRYSURDEB EIN BYWYDAU'N CUDDIO OFNAU AM Y DYFODOL**

Ond doeddwn i ddim am ddarlunio byd ôl-apocalyptaidd y tro hwn. Dyw delweddau o 'ddiwedd y byd' ddim yn ddefnyddiol wrth geisio darbwyllo pobl i weithredu dros yr amgylchedd; mae'r ymgyrchydd a'r awdur George Marshall, sy'n byw yn Llanidloes ac yn gyfrifol am y wefan www.climatedenial.org, wedi trafod effaith negyddol delweddau o'r fath. Maent yn parlysu pobl mewn ofn, ac yn eu hannog i ymgolli mewn gweithgareddau hedonistaidd, hunanddinistriol.

Fel merch pymtheg oed doeddwn i ddim hyd yn oed wedi ystyried, ar lefel ddeallusol, y syniad o ddiwedd y byd. Doeddwn i ddim wedi darllen unrhyw lyfr oedd yn mynd i'r afael â materion amgylcheddol: doedd gweithiau James Lovelock, Edward Goldsmith a Rachel Carson ddim ar fy silff lyfrau (nofelau Jane Austen a'r chwiorydd Brontë oedd at fy nant!). Roedd **Yfory** yn gerdd naïf, wedi ei seilio ar reddf yn hytrach na ffaith.

Mae ein hymateb greddfol i'r byd yn medru bod yn bwerus. Mae'n amlwg i mi erbyn hyn bod gan ddyn y gallu i ddinistrio popeth o'i gwmpas, gan gynnwys ei hun, a hynny hyd yn oed heb gymorth y bom niwclear. Mae'r system gyfalafol farchnad-rydd yn un gynhenid ddinistriol sydd yn ein tywys i un cyfeiriad yn unig: at y dibyn. Mae'r system yma yn llyncu ein hadnoddau naturiol ac yn bygwth systemau'r ddaear — systemau yr ydym yn dibynnu arnynt. Mae'n anhebygol y gallwn ddatrys yr argyfwng hinsawdd o dan y system economaidd sydd ohoni.

Mae **Heno, wrth gysgu** yn ymdrin â'n hymateb i'r cwestiynau hyn, a'r pwysau seicolegol sydd arnom. Mae'n awgrymu ein bod yn gwthio'r gwirionedd poenus am ein bodolaeth yn ddwfn i'r isymwybod.

**YR 'AMGYLCHEDD' — CWESTIWN DYNGAROL PWYSICAF EIN HOES**

Yn y bôn mae'r mwyafrif ohonom yn deall bod pethau mawr ar droed o achos newidiadau i'r tywydd. Rydym yn ymwybodol bod mamau a phlant yn colli eu bywydau eisoes o achos llifogydd ac afiechyd a newyn, a bod y ddaear yn cael ei fapio o'r newydd. Rydym yn gwybod bod poblogaethau mwyaf bregus y byd yn wynebu trychinebau sydd y tu hwnt i'n dirnadaeth, a'n bod ni yn y gwledydd cyfoethog yn ecsploetio eu tiroedd a'u llafur, gan bwmpio carbon deuocsid i'r atmosffer heb ystyried y sgil-effeithiau. Rydym yn ymwybodol bod sawl aderyn ac anifail a phlanhigyn ar ein hynys fach ni ar ei ffordd i ddifodiant.

Ond nid pawb sydd am gydnabod a thrafod y pethau hyn. Nid pawb sydd am ystyried y cwestiynau mawr moesol, am fod y goblygiadau yn rhy frawychus, ac yn rhy fygythiol i'n ffordd o fyw. A rhaid cofio bod nifer ohonom yn y gwledydd cyfoethog yn gaeth i'n cyflogwyr, a'r banc, ac yn gofalu am blant neu bobl mewn oed. Ar ôl diwrnod caled o waith (os ydym yn ddigon lwcus i fod mewn gwaith) nid oes gennym amser nac egni i ystyried yr hyn sy'n digwydd i grisialau rhew yn yr Arctig ac i flodau gwyllt Eryri ac i bobl sy'n tyfu bananas yn y Caribî. Nid ydym eisiau gwybod pam ei bod wedi glawio'n ddi-baid am ddau fis yng nghanol haf, a'r caeau bellach o dan ddŵr.

Serch hyn, wrth gysgu, neu hanner-cysgu, cawn ein gorfodi ambell waith i wynebu'r hyn sy'n digwydd, a wynebu ein hofnau, am nad ydym yn medru amddiffyn ein hunain rhag ein meddyliau. Dyna rwy'n ei ddisgrifio yn rhan gyntaf y gerdd.

Yng ngolau dydd, trown at yr holl bethau hynny sy'n perthyn i'n gwareiddiad modern — y cloc, y tecell, y newyddion ar y teledu (straeon arwynebol sy'n gwrthod â gosod digwyddiadau mewn cyd-destun ystyrlon; adroddiadau sy'n portreadu protestwyr amgylcheddol fel hipis a hwliganiaid) — a gallwn gladdu ein hofnau. Anghofiwn am y fam a'r baban sydd wedi marw o achos tirlithriad; anghofiwn am ein gweithredoedd treisgar yn erbyn y byd naturiol, a'r ffaith y bydd ein plant ein hunain yn wynebu bygythiadau difrifol maes o law. Dechreuwn boeni unwaith eto am ein dyledion ariannol.

Mae cyfrifoldeb ar gynhyrchwyr a gohebwyr i sicrhau nad yw'r "amgylchedd" yn cael ei drin fel pwnc ymylol ac israddol yn y cyfryngau, ond fel rhywbeth sy'n rhan annatod o'n bywydau, fel rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r economi, ac fel cwestiwn dyngarol pwysicaf ein hoes.

Rhaid gwyntyllu'r materion hyn – materion mwyaf tyngedfennol y ganrif — nid eu claddu. A rhaid gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Diolch i fudiad Awel Aman Tawe, i Menna Elfyn, ac i olygyddion **Y Papur Gwyrdd**, am eu hymroddiad. ☐



**Menna Elfyn (canol) gyda thri arall o feirdd newid hinsawdd Awel Aman Tawe — chwith i dde, Glenys Kim Protheroe (3ydd), Mair Owen Wyn (3ydd) a Martin Huws (2ail).**

CHARLOTTE DAVIES: DILEMMA NEWID HINSAWDD …

# Deall yn iawn - ond dim ots?

**MAE gwyddonwyr ac ymgyrchwyr mudiad y Ddaear yn poeni bod deall a derbyn realiti newid hinsawdd a'i beryglon ddim yn arwain pobl i wneud newidiadau sylweddol yn eu ffordd o fyw.**

Dyw pobl chwaith ddim yn mynnu bod eu cynrychiolwyr gwleidyddol yn gosod newid hinsawdd fel blaenoriaeth uchel.

Beth, felly, sydd tu ôl i'r difaterwch hwn wrth i ni geisio delio â datblygiad mor beryglus?

Mae'r ganran o bobl ym Mhrydain sy'n credu bod newid hinsawdd yn digwydd, ac yn cael ei achosi'n bennaf gan weithgareddau dynol, wedi bod yn disgyn yn raddol ers 2008. Esbonnir y cwymp yn rhannol gan y cyhoeddusrwydd a roddwyd i ddadleuon y Gwadwyr yn ogystal â methiant y gymuned ryngwladol i ddod i gytundeb effeithiol, yn arbennig yng Nghynhadledd Hinsawdd Copenhagen.

Serch hynny, mae arolygon barn yn dal i ddangos bod dros 60% o bobl yn credu bod newid hinsawdd yn digwydd, bod ei ganlyniadau yn achos pryder ac mai dynoliaeth sydd bennaf gyfrifol amdano.

Bellach, mae rhai o fudiadau'r Ddaear, Greenpeace yn eu plith, yn dechrau credu bod eu neges yn rhy frawychus a bod rhaid pwysleisio canlyniadau positif, fel swyddi gwyrdd, er mwyn cael pobl i ymateb i newid hinsawdd.

Mae 'na dystiolaeth bod pobl yn fwy tebyg i ymateb i broblem os maent yn gallu gweld ffordd i weithredu i wella'r sefyllfa.

Ond mae'r ymgyngHorydd amgylcheddol George Marshall, sy'n astudio sut mae pobl yn ymateb i risg, yn rhybuddio bod cynnig ymatebion rhannol yn aml yn cael yr effaith annisgwyl o roi esgus i bobl anwybyddu'r wir broblem. Mae hyn yn digwydd gydag ail-gylchu, meddai.

Dyma ffordd gymharol hawdd o deimlo ein bod yn cyfrannu i'r amgylchedd ond sydd ar yr un pryd yn golygu ein bod yn osgoi poeni'n ormodol am bethau anos, fel cwtogi ar ddefnydd ceir neu hedfan tramor am wyliau sawl gwaith y flwyddyn.

Mae Marshall hefyd yn sôn am ein tueddiad i gadw syniadau sy'n gwrthddweud ei gilydd mewn bocsys meddyliol ar wahân.

Trwy hyn, rydym yn gallu cytuno gyda'r holl ddadleuon ynglŷn â newid hinsawdd heb adael iddynt effeithio ar rannau eraill o'n bywydau.

Yn ei hastudiaeth o gymuned wledig yn Norwy, mae'r cymdeithasegydd Kari Marie Norgaard wedi ceisio esbonio difaterwch y trigolion ynglŷn â newid hinsawdd er eu bod yn derbyn ei fod yn digwydd ac yn achosi problemau i ddiwydiant twristaidd yr ardal.

Daeth hi o hyd i'r un agweddau seicolegol y mae Marshall yn son amdanynt.

Dywedodd un athrawes ifanc wrthi: 'Rydym yn byw mewn un ffordd ac yn meddwl mewn ffordd arall. Rydym yn dysgu meddwl yn baralel.'

Ond mae Norgaard

PARHAD AR DUDALEN 8

## ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

**Pigion amrywiol 2 fis**

### PETHAU'N POETHI

MAE cyfnodau o dywydd poeth eithafol fel y cafwyd yng ngorllewin Ewrop yn 2003 hyd at 10 gwaith yn fwy tebyg i ddigwydd yn ystod y 40 mlynedd nesaf, yn ôl astudiaeth gan wyddonwyr Prifysgol Lisbon. Dywed arweinydd yr ymchwil, David Barriopedro, fod ei dîm wedi dangos bod risg difrifol o niwed mawr i bobl a chnydau yn y dyfodol os na chaiff polisïau eu mabwysiadu i ymateb i'r gwres llethol. Credir bod cymaint â 50,000 wedi marw yn Rwsia'r llynedd o ganlyniad i dywydd chwilboeth yr haf.

### SIOM CARBON EWROP

BU cryn siom ym Mrwsel ym mis Mawrth wedi i Gomisiwn Ewrop benderfynu peidio â galw am dargedau cryfach ar gyfer allyriadau carbon. Yn lle mabwysiadu targed newydd o leihad o 30%, penderfynwyd aros gyda'r targed presennol o ddim ond 20%. Edrychir ar y penderfyniad fel buddugoliaeth i lobïo gan ddiwydiannau pwerus.

### PENCAMPWYR AILGYLCHU

DANGOSODD ystadegau mai Awstria yw'r wlad orau yn Ewrop am ailgylchu wrth iddynt ail-gylchu neu gompostio 70% o wastraff eu hawdurdodau lleol yn ystod 2010. Tua 45% yw'r ffigwr am Gymru, gyda Lloegr wedi cyrraedd bron 40% erbyn diwedd 2010. Uchelgais Llywodraeth Cymru yw cyrraedd 70% erbyn 2025.

### TRYDAN LLIF LLANW

RHODDWYD caniatâd gan Lywodraeth yr Alban i gynllun £40 miliwn i adeiladu pwerdy llif llanw mawr cynta'r byd mewn sianel ddofn, gysgodol, yn y môr rhwng dwy ynys Albanaidd. Bydd y tyrbinau tanddwr yn cynhyrchu tua 10MW o drydan sef digon am 10,000 o gartrefi. Dywedodd cadeirydd Ymddiriedolaeth Ynni Islay bod yr ynyswyr yn hapus iawn gyda'r prosiect. Bydd y gymuned leol yn derbyn taliadau gan Scottish Renewables, sef y cwmni tu ôl i'r fenter.

### YMATEB GWENWYNIG

YN America, mae cwmni ffrwythau mwya'r byd, Dole, wedi methu yn eu hymdrechion i atal ffilm o'r enw **Bananas** sy'n sôn am y niwed iechyd a achoswyd ganddynt i'w gweithwyr yn Nicaragua. Mewn achos llys yn Los Angeles, cyfaddefodd pennaeth y cwmni iddyn nhw barhau i ddefnyddio plaladdwr gwenwynig hyd 1982 yn Nicaragua er iddo gael ei wahardd yn America ym 1977. Mae rhai o'r gweithwyr banana a effeithiwyd wedi bod yn ymladd am iawndal gan Dole am flynyddoedd. Gorchmynnwyd cwmni Dole i dalu holl gostau'r achos, sef $200,000.

### AMDDIFFYN YR AWÁ

MAE mudiad Survival International yn ymgyrchu o blaid llwyth bach yr Awá yn nhalaith Maranhao yn yr Amazon, un o ddim ond dau lwyth o helwyr-casglwyr sy'n goroesi ym Mrasil. Mae'r 355 o bobl, mewn pedair cymuned, yn dibynnu'n llwyr ar y coedwigoedd am eu cynhaliaeth. Erbyn hyn maen nhw dan warchae gan gwmnïau torri coed sy'n gwthio'n ddyfnach i'r fforestydd. Lladdwyd nifer o'r Awá'n ddidrugaredd gan ffermwyr sy'n clirio'r coed ar gyfer gwartheg. Mae Survival yn arwain ymgyrch i fynnu bod llys yn gweithredu gorchymyn a ddyfarnwyd yn 2009 i symud trefedigaethwyr estron o diroedd yr Awá ac i barchu eu hawliau.

### SŴN Y GWYNT SY'N CHWYTHU

MAE Tsieina'n disgwyl elwa fel cynhyrchydd offer ynni gwynt rhad yn ôl adroddiad bod y Gymuned Ewropeaidd yn bwriadu buddsoddi 400biliwn ewro mewn ynni gwynt dros yr 20 mlynedd nesaf. Dywedir bod swyddogion y Gymuned wedi bod yn ailystyried eu polisi ynni yn wyneb damwain atomfa Siapan. Honnir y bydd archebion am offer ynni gwynt Tsieineaidd yn codi o ryw 750% eleni o gymharu â 2010 gydag allforion ar i fyny.

## BWRLWM YSGOL — ADEILAD ‘GWYRDD’, LLEIHAU GWASTRAFF, BWYD LLEOL, A MWY ...

# Botwnnog yn gosod y Byd yn ei le - ar y brig!

**Y N ôl yn 2003, 'roeddem fel Ysgol Uwchradd Botwnnog yn chwilio am ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ein disgyblion o Ddatblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang.**

Fel ysgol wledig yng nghanol prydferthwch Pen Llŷn 'rydym wedi teimlo cyfrifoldeb erioed i warchod ein hamgylchedd.

Gyda'r ddau brif nod yma mewn golwg penderfynwyd ymuno â Chynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn gan weithio yn y blynyddoedd cynnar tuag at y Wobr Efydd ac Arian.

Sefydlwyd y grŵp gwyrdd cyntaf o blith criw o fechgyn oedd wedi bod yn gofyn am gael gwneud rhywbeth heblaw y "gwyddoniaeth boring yma" ar ambell i bnawn. Yn wir, o edrych yn fanwl, 'roedd llawr o'r gwaith cynnar ar y cynllun gwyrdd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth.

Mae Ysgol Botwnnog yn hen, hen ysgol gydag adeiladau yn dyddio'n ôl i dridegau'r ganrif ddiwethaf, rhai o'r chwedegau a rhai newydd eu hadeiladu. A dyma graidd y broblem o ran arbed ynni: nifer o adeiladau gwahanol, disgyblion a staff yn gorfod mynd mewn ac allan yn barhaus, ffenestri gwael, ynysu gwael a system wresogi fyddai'n teimlo yn gartrefol yn Sain Ffagan.

**YN LLE SGLODS O’R ISELDIROEDD, TATWS NEWYDD O BONTLLYFNI**

Bu'r grŵp gwyrdd wrthi'n fisol yn monitro'r defnydd trydan yn y gwahanol adeiladau, ac o siarad â'r Pennaeth a'r Swyddog Gweinyddol darganfuwyd fod y defnydd trydan a nwy'n codi'n flynyddol. Gwelwyd o'r ffigyrau bod rhai adeiladau'n gogrwn gwres, ac er i ni ofalu fod offer newydd yn effeithlon o ran defnydd ynni bach iawn oedd effaith hyn ar y cyfanswm ynni a ddefnyddiwyd.

Yn ffodus i'r ysgol, 'roedd Adran Eiddo'r Cyngor yn teimlo'r un fath a'r grŵp gwyrdd a heb fawr o berswâd cafwyd ffenestri newydd, gwresogyddion unigol i nifer o stafelloedd, a chafodd yr adeilad mwyaf gwastraffus ail fywyd gyda tho newydd, lloriau newydd yn ogystal ag ynysu'r waliau.

Cafwyd cefnogaeth dda hefyd gan y Cwmni Darparu oedd yn gefnogol iawn i gais gan y grŵp gwyrdd i leihau eu defnydd o gemegolion a hefyd gyda'n cynlluniau ail-gylchu.

**Adroddiad Arbennig gan GERAINT O HUGHES**

Rhaid canmol ymdrechion y gofalwr, glanhawyr, athrawon a'r disgyblion am y gwaith sydd wedi ei wneud o ran ail-gylchu. Erbyn hyn mae'r holl bapur, gwydr a'r rhan fwyaf o'n plastig yn mynd i'r biniau pwrpasol yn ogystal â'r deunydd gwyrdd i'r biniau compost. Rhaid diolch i'r gogyddes a staff y gegin am eu cefnogaeth frwd yma hefyd. Erbyn hyn rydym wedi llwyddo i leihau'n sylweddol ein gwastraff sy'n mynd i dirlenwi, ac i bob pwrpas wedi dileu sbwriel o amgylch yr ysgol.

Defnyddia'r Cwmni Darparu Ysgol Botwnnog fel arfer dda i ysgolion eraill. Mae staff y gegin wedi bod yn gefnogol iawn i ymgyrch arall sydd wedi ei chychwyn gan y disgyblion drwy'r Cynllun Ysgolion Gwyrdd a'r Ysgol Iach, sef ceisio cael cyflenwadau bwyd mwy lleol.

Mae wedi bod yn dalcen caled gan fod rhaid hefyd ystyried costau a chyflenwad cyson, ond llwyddwyd i newid ein cyflenwyr ffrwythau a llysiau i un fwy lleol. Yn lle ein bod yn bwyta sglodion o'r Iseldiroedd bob amser cinio 'rydym yn bwyta tatws newydd o Bontllyfni, caws a llefrith o Hufenfa De Arfon ac ambell waith llysiau o dir yr ysgol er ein bod yn dal i gael ein hwyau o Aberystwyth! Ia, erbyn hyn rydym wedi sefydlu gardd ar dir yr ysgol ac mae'r grŵp gwyrdd presennol yn gyfrifol am dyfu pob math o blanhigion i hybu bywyd gwyllt yn ogystal â pherlysiau, afalau, nionod, cennin a letys yn eu tymor ar gyfer y gegin.

Yn wir mae ein llwyddiant pennaf fel Ysgol Werdd wedi dod o edrych ar ôl ein hamgylchedd. Byddwn yn gwadd y gymuned leol i weld beth sy'n mynd ymlaen, ac mae'r disgyblion yn cefnogi gwaith amgylcheddol yn y dalgylch. Mae gwahanol grwpiau wedi bod yn gweithio ar sefydlu gardd gymunedol ym mhentref Llaniestyn, yn helpu i ofalu am ardd Neuadd Goffa Sarn, creu llwybr troed yn Abersoch, adeiladu wal gerrig a gosod blychau ystlumod yng Nghlynnog — mae'n rhestr faith.

Eleni i ddathlu'r wythnos Wyddoniaeth Genedlaethol mae'r grŵp gwyrdd, gyda help Anna Williams, Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor, am adeiladu pwll bywyd gwyllt yng ngardd yr ysgol. Mae'r disgyblion hefyd wedi bod yn cyd-weithio â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gynllunio a helpu i blannu gwinllan o goed caled wrth ymyl y pentref.

Trwy'r holl weithgaredd dros y blynyddoedd diwethaf ein gobaith yw bod y disgyblion, eu rhieni a'r gymuned ehangach wedi cael dealltwriaeth well o'r pynciau gwyrdd a bod beth rydym ni'n ceisio ei wneud yn yr ysgol yn cael rhywfaint o effaith ar eu bywydau bob dydd tu allan i'r ysgol.

I ni yn yr ysgol, mesur o'n llwyddiant yw nad oes neb yn meddwl am weithgareddau'r Ysgol Werdd arwahan bellach. Mae wedi integreiddio i fywyd a Chwricwlwm yr Ysgol, o'r goleuadau awtomatig i'r clwb beicio, yr ail gylchu a'r defnydd o bapur o ffynhonnell gynaliadwy.

Mae’r cynllun hefyd wedi plethu'n dda gyda'n hymgyrchoedd Ysgol Iach a Masnach Deg a phawb ar eu hennill o'r herwydd. ☐

► *Tud 11: Lluniau Bwrlwm Botwnnog.*

### TROEDIO’N YSGAFN AR Y DDAEAR? - NEU GIC YN EI PHEN ÔL?

O RAN lles y Ddaear, mae penderfyniad FIFA i gynnal Cwpan Pêl Droed y Byd yn Qatar yn 2022 yn enbyd o ddinistriol. Mae Qatar ymysg gwledydd poethaf y byd, a bydd y gystadleuaeth ym Mehefin a Gorffennaf pryd mae’r tymheredd rhwng 40 a 50$^{O}$C.

Er mor fach, mae defnydd ynni’r pen Qatar yn fwy nag unrhyw wlad arall – ar wahan i’r *United Arab Emirates*. Cynyddodd defnydd olew a nwy yn Qatar o 310% rhwng 1999 a 2009.

Nawr mae FIFA yn eu gwahodd i wastraffu llawer mwy. Gofynnir iddynt godi 12 stadiwm ac adeiladau ar gyfer 1-2 miliwn o gefnogwyr – gyda systemau awyru i ostwng y tymheredd i lawr i 27$^{o}$C hyd yn oed yng ngolau’r haul. Bydd y defnydd trydan yn arswydus o fawr. Popeth yn iawn, medd swyddogion Qatar – fe gawn ni baneli haul yn yr anialwch i osgoi allyriadau carbon (o



‘Bydd Cwpan Byd Qatar fel rhywun yn gadael holl oleuadau ac offer trydan ei dŷ ymlaen trwy’r nos a honni ei fod yn ‘wyrdd’ gan fod tyrbin gwynt ar y to.’

PARHAD O DUDALEN 6

## Angen apêl foesol i ddelio â'r diffyg sylw — George Monbiot

hefyd yn dadlau bod pobl Norwy yn osgoi rhai gwirioneddau — fel cyfraniad y diwydiant olew i ffyniant presennol y wlad — trwy'r 'straeon' am eu hunaniaeth maent yn dweud wrth eu hunain. Mae'r 'straeon' hyn yn eu portreadu fel pobl syml, ddiymhongar, agos at natur, sy'n byw mewn gwlad a fu'n gymharol dlawd tan yn ddiweddar ac sydd, felly, ddim mor gyfrifol am achosi newid hinsawdd â'r gwledydd mawr.

Trwy hyn, cynhelir difaterwch ynglyn â newid hinsawdd gan agweddau sy'n gyffredin yn y gymdeithas, yn ogystal â thrwy brosesau seicolegol yr unigolyn.

Yn wyneb hyn, mae'r ymgyrchydd adnabyddus George Monbiot bellach yn dadlau bod rhaid gosod apêl foesol ynghanol y ffeithiau am ddifrod amgylcheddol a newid hinsawdd os oes gobaith newid ein ffordd o fyw.

Yn rhifyn Mawrth/Ebrill o'r cylchgrawn *Resurgence*, mae Monbiot yn ystyried y 'straeon' cymdeithasol sy wedi cael eu hyrwyddo'n fwriadol yn y DG, ac ar draws gwledydd y Gorllewin, ers yr 1980au. Mae'r 'straeon' hyn yn gosod y gwerth uchaf ar lwyddiant ariannol yr unigolyn. Dangosir gwir werthoedd y gymdeithas hon yn niwylliant bas y 'selebs'.

Mae'r gwerthoedd hyn yn gwbl wrthun i werthoedd mudiad y Ddaear. Ond mae Monbiot yn honni bod y mudiad gwyrdd wedi cael ei dynnu i mewn i'r 'straeon' wrth bwysleisio sut mae pobl yn gallu elwa'n bersonol trwy newid eu hymddygiad. Mae prynwriaeth werdd, yn ôl Monbiot, wedi bod yn gamsyniad enfawr.

Yn lle hynny, meddai, dylai'r mudiad dderbyn – a dadlau – bod rhaid newid ein gwerthoedd fel rhan o'r ymateb i newid hinsawdd.

Rhaid dadlau dros bolisïau a gweithredoedd ar sail gwerthoedd gwahanol, meddai Monbiot. Dylai'r gwerthoedd hyn bwysleisio'r perthynas rhwng pobl, a'u perthynas gyda natur, yn fwy na llwyddiant ariannol a thwf economaidd. Dylent, hefyd, osod cymuned a chyfiawnder cymdeithasol uwchben prynwriaeth.

**CHARLOTTE DAVIES**

4ydd TYMOR Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

# Dyma gyfle i fanteisio ar economi werdd newydd

**Gan HAF ELGAR**
**Ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru**

**BYDD pedwerydd tymor y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfle ardderchog i gyflawni polisïau amgylcheddol uchelgeisiol ac arloesol, a thrwy hynny manteisio ar ddatblygiad economi werdd.**

Ond mae angen rhoi pwysau ar y pleidiau a'r ymgeiswyr yn ystod etholiadau Mai 5 fel na fydd newid hinsawdd a budd yr amgylchedd yn mynd yn angof ynghanol y bwrlwm etholiadol.

Bu Cyfeillion y Ddaear Cymru a'n grwpiau lleol ar draws Cymru wrthi'n lobïo ymgeiswyr, trefnu cyfarfodydd 'hawl i holi' a thynnu sylw'r wasg i'n galwadau er mwyn sicrhau y byddai gan bolisïau i daclo newid hinsawdd broffil uchel yn ystod yr ymgyrchu.

Hawliau amgylcheddol, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chartrefi cynnes yw conglfeini ein **Maniffesto ar gyfer Cymru wyrddach** sy'n amlinellu'n hagenda ar gyfer Llywodraeth newydd y Cynulliad.

**HAWLIAU AMGYLCHEDDOL**

Gallai Deddf Hawliau Amgylcheddol amddiffyn pobl Port Talbot rhag llygredd aer peryglus, a gwarchod cymunedau yn y Cymoedd rhag rhagor o byllau glo brig ar garreg eu drws. Gallai hefyd ddiogelu ein safleoedd bywyd gwyllt gorau, gan nad yw hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan ddeddfau o Ewrop na Llundain.

Mae datblygu cynaladwy i fod yn ganolog i bolisïau ar gyfer Llywodraethau'r Cynulliad. Ond yn gyfreithiol, dyw hyn yn golygu dim mwy na'i gwneud hi'n ddyletswydd ar weinidogion i siarad am y mater. Byddai Deddf Hawliau Amgylcheddol yn gwneud yn siŵr na fyddai unrhyw benderfyniad a wneir gan Lywodraeth y Cynulliad, nac awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn gallu torri ar hawliau pobl yng Nghymru i fyw mewn amgylchedd iach.

**TORRI NWYON TŶ GWYDR GAN 9%**


Arweiniodd Llywodraeth y Cynulliad y byd wrth ymrwymo i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr gan 3 y cant bob blwyddyn. Ond nawr, wrth i ragor o wledydd ddilyn ein hesiampl, dengys y dystiolaeth wyddonol bod angen toriadau gan 9 y cant er mwyn osgoi newid hinsawdd peryglus. Dyma ddylai fod y targed newydd yma yng Nghymru, ac mae angen polisïau a gweithredu a fydd yn cyflawni hyn.

**CARTREFI CYNNES**

Mae tai'n cynhyrchu tua un rhan o bump o allyriadau nwy tŷ gwydr Cymru, ac mae tlodi tanwydd yn fwrn ar un o bob pedwar cartref. Dylai deddfwriaeth newydd sicrhau safonau gofynnol ar gyfer effeithlonrwydd ynni ym mhob cartref. Dylai o leiaf 400,000 o gartrefi yng Nghymru gael eu hadnewyddu er mwyn torri eu hallyriadau carbon gan 60 y cant dros y 10 mlynedd nesaf — gan leihau biliau tanwydd, creu swyddi lleol newydd, gwella iechyd a thorri allyriadau carbon.

Rydym hefyd yn galw am ymwrthod â llosgi gwastraff, codi'r targed ailgylchu i 80% erbyn 2020 a chefnogaeth i gynhyrchu bwyd trwy ddulliau cynaladwy yng Nghymru.

Yn dilyn pleidlais 'IE' yn Refferendwm y Cynulliad, fe fydd pwerau deddfwriaethol ym maes yr amgylchedd gan y Cynulliad newydd, a chyfle euraidd i roi dyfodol amgylchedd a phobl Cymru ar sail gadarn ddeddfwriaethol. Rhaid i ni'r amgylcheddwyr sicrhau bod mynd i'r afael â newid hinsawdd yn flaenllaw ar agenda'r llywodraeth newydd.



# Gwenwyno Silvino — am soya

**BU farw Silvino Talavera, 11 mlwydd oed, yn Paraguay wedi iddo gael ei wenwyno gan blaladdwyr oedd yn cael ei chwistrellu ar gaeau soya – ond, wyth mlynedd yn ddiweddarach, mae'r ffermwyr euog yn dal heb gael eu cosbi.**

Er i'w fam – Petrona Villasboa — ddod ag achos llys yn eu herbyn, ac i'r llys ddyfarnu'r ffermwyr yn euog, dyw'r naill na'r llall wedi talu dirwyon na phrofi tymor carchar. Lladdwyd Silvino wrth iddo anadlu'r gwenwyn pan oedd ar ei feic yn seiclo adref yn ardal Pirapey. Cael ei chwistrellu'n anghyfrifol oedd y plaladdwyr gan y ffermwyr oedd yn codi'r cnwd soya ar gyfer bwydydd dwys anifeiliaid ar ffermydd Ewrop. Tyfir mathau GM o'r soya mewn caeau anferth un-cnwd sy'n dibynnu ar gymysgedd o blaladdwyr a chwynladdwyr niweidiol i bobl a bywyd gwyllt.

Credir bod llawer o farwolaethau tebyg i Silvino ond bod pobl dlawd yn rhy ofnus i gwyno. Cam gobeithiol yw bod Petrona bellach wedi lansio ymgyrch ar y We i geisio sicrhau cyfiawnder i'w mab. Mae hi'n apelio ar y gymuned ryngwladol i ddanfon negeseuon at awdurdodau cyfreithiol Paraguay. ► **I ymuno, ewch at: www.foe.uk**

**FEL RHAN O GWRS MEISTR YN RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL GYNALIADWY YM MHRIFYSGOL BANGOR MAE SIONED HAF YN GWEITHIO'N WIRFODDOL GYDAG ELUSEN YNNI CYMUNEDOL AWEL AMAN TAWE YNG NGHWMLLYNFELL. DYMA ADRODDIAD GAN SIONED AR BROSIECT LLWYDDIANNUS GAN Y GRŴP I HYBU BARDDONIAETH A CHELF AR BWNC NEWID HINSAWDD**

# Cerddi newid hinsawdd — blaen ffrwyth ynni cymunedol Aman Tawe

**WEDI blynyddoedd o waith diflino, mae Awel Aman Tawe ar drothwy cyfnod newydd cyffrous wedi i'r grŵp dderbyn caniatâd cynllunio i godi dau dyrbin gwynt ar Fynydd y Gwrhyd, uwchlaw Pontardawe.**

Rhan o ffrwyth y prosiect hwn yw y bydd yr arian a ddaw wrth werthu'r trydan a gynhyrchir gan y tyrbinau gwynt i'r grid genedlaethol yn cael ei fwydo nôl i'r gymuned.

Awel Aman Tawe fydd yn trafod yr arian yma, ac yn ei ddefnyddio'n benodol i ariannu a gweithredu prosiectau adfywio carbon isel ymysg y cymunedau o gwmpas safle'r tyrbinau.

Dechreuodd y prosiect yn 1998, felly taith hir buodd hi cyn cyrraedd y sefyllfa bresennol hon. Ond mae'r gwaith yn parhau. Yr her bwysicaf yw hybu trafodaeth ag ymwybyddiaeth yn y cymunedau lleol ynglyn â newid hinsawdd a phwysigrwydd datblygiadau cynaladwy.

**DEFNYDDIO'R CELFYDDYDAU I ANNOG YSTYRIAETH DDWYSACH AM NEWID HINSAWDD**

Mae'r celfyddydau'n gyfrwng sydd â'r gallu i drin a thrafod unrhyw bwnc, felly pam nad oes mwy o farddoniaeth ynglŷn â phwnc mor amserol a phwysig â newid hinsawdd?

Dyna'r cwestiwn a drawodd Emily Hinshelwood yn ddiweddar, hithau ei hun yn fardd brwd ac yn gydlynydd celfyddydol i grŵp ynni cymunedol Awel Aman Tawe. Wedi ei sbarduno gan y cwestiwn, dyma'r grŵp yn mynd ati i drefnu gweithgareddau celfyddydol yn ein dalgylch, gan ddefnyddio'r celfyddydau fel sbardun i unigolion feddwl yn ddwysach am oblygiadau newid hinsawdd, nid yn unig yn amgylcheddol, ond yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Codwyd arian i drefnu rhaglen gelfyddydol dros hydref 2010 fyddai'n annog pobl leol i ymateb yn bersonol drwy gyfrwng celfyddydol i newid hinsawdd. Cynhaliwyd gweithdai barddoniaeth gan y beirdd Dafydd Wyn a Susan Richardson, gweithdai ffilm ac animeiddio, a chystadleuaeth greadigol i arlunio cerdyn post o'r dyfodol. Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau yma yn sicrhau cyfrwng creadigol gwahanol ar gyfer pawb oedd eisiau dweud eu dweud am sgil effeithiau newid hinsawdd.

Bu ffocws penodol ar hybu barddoniaeth o'r ardal a thu hwnt, er mwyn arwain at gyhoeddi blodeugerdd penodol o gerddi am newid hinsawdd. Roedd y gystadleuaeth yn agored i farddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a chafwyd ymateb calonogol iawn i'r ddwy adran, gyda chystadleuwyr yn ymgeisio o Frynaman hyd at Ynysoedd y Philipinos.

Gwahoddwyd dwy o hoff feirdd Cymru i feirniadu'r gystadleuaeth, Gillian Clarke a Menna Elfyn.

Yn ôl y trefnydd Emily, "Fe drefnwyd cystadleuaeth farddoniaeth gan y grŵp er mwyn ysbrydoli ysgrifau newydd a syniadau diddorol fyddai'n tanio trafodaeth ehangach yn y maes celfyddydol am y pwnc. Anodd ar adegau yw sylweddoli difrifoldeb sgil effeithiau'r newidiadau a ddaw os parhawn i fyw mewn modd anghynaladwy fydd yn effeithio ar ein hinsawdd. Mae barddoniaeth yn ffordd o'n cynorthwyo ni i ddeall pynciau anodd, trwy eiriau a delweddau."

Cyrhaeddodd y gystad-leuaeth ei hanterth mewn noson gynhaliwyd ar nos Wener, Chwefror 25, yng Nghanolfan Gelfyddydol Pontardawe. Traddodwyd y beirniadaethau gan Gillian Clarke a Menna Elfyn, ynghyd â darlleniadau o rai o'r cerddi buddugol, gerbron theatr lawn. O ganlyniad i'r gystadleuaeth, mynegwyd pryderon am newid hinsawdd trwy sgiliau'r amrywiaeth o feirdd yn hytrach na thrwy cegau pwysigion gwleidyddol neu brotestwyr tanbaid yn unig. Yn ei cherdd fuddugol trwy gyfrwng y Gymraeg, cyfeiriodd Angharad Penrhyn Jones, at hunllef llawn delweddau arswydus o'r dyfodol yn ei haflonyddu yn ystod y nos cyn iddi ddeffro i realiti'r bore lle'r oedd pryderon pob dydd yn pwyso. Disgrifio'r ynys o blastig sydd wedi ymgasglu i arnofio yng ngogledd y Môr Tawel, wnaeth y bardd buddugol trwy gyfrwng y Saesneg, Sarah Westcott.

Yn ôl Menna Elfyn, beirniad y beirdd Cymraeg, "Bu'r cyfle i mi ddarllen barddoniaeth ar bwnc ag iddi sgil effeithiau mor gymhleth ag anodd ei hamgyffred, yn brofiad dirdynnol. Braf oedd profi pa mor fedrus yw ein beirdd cyfoes wrth greu delweddau a syniadau am oblygiadau newid hinsawdd. I unrhyw un sydd am weld dawn newydd barddonol o Gymru a thu hwnt, ac sydd eisiau sbardun ysgogol ynglŷn â'r pwnc llosg hwn, byddwn yn awgrymu'n gryf y dylent gael gafael ar gopi o'r flodeugerdd."






**Yn noson wobrwyo enillwyr Cystadleuaeth Barddoniaeth Newid Hinsawdd elusen Awel Aman Tawe ym Mhontardawe — UCHAF: Rhai o'r gynulleidfa'n mwynhau arddangosfa'r Cardiau Post o'r Dyfodol. UCHOD: Gillian Clarke gydag enillwyr Adran Saesneg yr Ifainc.**

Profodd gweithgarwch celfyddydol fel y gystadleuaeth hon yn gyfle i Awel Aman Tawe ledaenu gwybodaeth sy'n help i bobl ddeall beth yw argyfyngau newid hinsawdd a sut mae byw'n gynaladwy. Dangoswyd hynny'n glir gan lwyddiant y noson ym Mhontardawe .

► *Heno, wrth gysgu: Barddoniaeth am y Newid yn yr Hinsawdd.* **Blodeugerdd y gystadleuaeth ar gael am £3 o swyddfa Awel Aman Tawe, 76-78 Heol Gwilym, Cwmllynfell, Abertawe, SA9 2GN., ffôn 01639 830241, ebost info@awelamantawe.co.uk.**

**Cardiau Post o'r Dyfodol i'w gweld ar: www.awelamantawe.co.uk**

## ENILLWYR Y GYSTADLEUAETH

**Oedolion (Cymraeg)**: 1, Angharad Penrhyn Jones (Heno, wrth gysgu); 2, Martin Huws (Sgrechen); 3, Mair Owen Wyn (Yr arth wen); 3, Glenys Kim Protheroe (Ar Fynydd Margam).

**Oedolion (Saesneg)**: 1, Sarah Westcott (Birth of a Naturalist); 2, Iris Debley (Passage); 3, Noel Williams (Erosion).

**Pobl Ifanc (Cymraeg)** — dim ond un cystad-leuydd yn anffodus: 1, Adam Jones (Dyffryn Du).

**Pobl Ifanc (Saes-neg):** 1, Bridie Mar-low (Angels); 2, Cassandra Green (Blue Whale); 3, Siobhan Phillips (The Web)

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd




**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**

## Cynhadledd Hinsawdd

BYDD y gwyddonydd hinsawdd byd-enwog Syr John Houghton o Aberdyfi'n annerch mewn cyfarfod cyhoeddus a gynhelir ar nos Wener, Ebrill 9, ym Mhrifysgol Bangor. Dafydd Iwan fydd cadeirydd y noson a gynhelir yn Narlithfa 2, Adeilad newydd y Celfyddydau. Mae'r anerchiadau gan Syr John a chan Mohamed Adow o Kenya yn rhan o **Gynhadledd Genedlaethol Newid Hinsawdd – Newid Byd** a drefnwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymorth Cristnogol. Cynhelir y gynhadledd yng Nghapel Berea Newydd ar Sadwrn, Ebrill 10, gan ddechrau am 10yb. Ceir darlithoedd yn ystod y dydd gan nifer o wyddonwyr blaenllaw. Gellir mynychu'r gynhadledd ar gost o £10 (cynnwys bwffe) a £5 i blant ysgol a myfyrwyr. Gellir talu ar y dydd ond rhaid cofrestru o flaen llaw.

**► I gofrestru, e-bostiwch at cynhadledd@hotmail.co.uk, danfonwch neges testun neu mynnwch sgwrs ffôn ar 07900 491257, neu ysgrifennwch at Gynhadledd, 87 Maes-y-Sarn, Pentyrch, Caerdydd. CF15 9QR.**





**Yr Athro Syr John Houghton a Dafydd Iwan — yn cynnig arweiniad i'r genedl yng Nghynhadledd Newid Hinsawdd Bangor**

## Gobaith Biochar

AR nos Fercher, Ebrill 13, rhoddir sgwrs gan Hazel Alison yng Nghanolfan Amgylcheddol Abertawe i esbonio rhinweddau biochar dan nawdd Cymdeithas Arddio Organig yr ardal. Biochar yw'r broses o wneud golosg o wastraff amaethyddol. Edrychir arno gyda gobaith fel modd o dynnu carbon deuocsid o'r atmosffer – proses hanfodol i ffrwyno ar newid hinsawdd. Mae'r noson yn dechrau am 7 o'r gloch.

**► Mwy gan Jayne Vickrage ar 01792 869098 (yn Gymraeg)**

## Coed y Brenin

YN galw artistiaid ifanc! Ar Ddydd Sadwrn, Ebrill 16, bydd croeso i chi yng Nghoed y Brenin ger Dolgellau i weithdy celf amlgyfrwng gyda'r artist Catrin Williams. Beth am ddod am dro i Goed y Brenin dros y misoedd nesaf i greu eich gwaith celf eich hun? Amserau: sesiwn y bore, 10.00 - 12.00yb (addas i blant 4-7 oed); sesiwn y prynhawn, 1.00 - 3.00yp (addas i blant 7-11 oed). I archebu lle, cysylltwch â Choed y Brenin.

**► Cyswllt: 01341 440747 neu , [coedybrenin@forestry.gsi.gov.uk](mailto:coedybrenin@forestry.gsi.gov.uk). Mwy ar [www.forestry.gov.uk](http://www.forestry.gov.uk)**

## Croeso i'r ... Ŵyl

BYDD croeso cynnes ar gael i filoedd o bobl ar faes Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd ar Sadwrn, Mai 21, a Sul, Mai 22, ar gyfer yr Ŵyl Tyddyn a Gardd werinol — er mai *Gŵyl Wanwyn Frenhinol Cymru* yw'r teitl uchel ael sy'n fwy ffasiynol gyda'r awdurdodau erbyn hyn. Gyda myrdd o gystadlaethau, stondinau, arddangosfeydd o gynnyrch lleol a sgiliau gwledig, adloniant amrywiol — ynghyd â bwyd Cymreig da — mae'r ŵyl wedi denu cymaint â 25,000 o bobl yn y gorffennol ac yn anelu at fwy eto eleni.

## Taith yn y mwd

BYDD Canolfan Genedlaethol y Gwlypdir ym Mhenclacwydd, Llwynhendy, Llanelli, yn cynnal dwy o'u teithiau cerdded poblogaidd at ymylon y corsydd a thu hwnt pan mae'r llanw ar drai ar Sadwrn, Mai 21, a Sul, Mai 22. Bydd angen bod yn eithaf heini i ddelio â'r 'Saffari Mwd' hyn: dydyn nhw ddim yn addas ar gyfer y plant lleiaf. Anogir dillad addas a *wellingtons*. Rhaid cofrestru o flaen llaw. Y gost yw £5 i oedolion gyda phlant am ddim.

**► I archebu lle, ffoniwch 01554 741087**

## Esbonio tirwedd

CYNHELIR Gŵyl Tirweddau Byw Cymru yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth, ar Sun, Mai 29, a Llun, Mai 30, rhwng 10 a 5.30 o'r gloch. Bydd arbenigwyr yn sôn am y dirwedd leol gan esbonio'r ddaeareg a hanes y gymuned: ffarmio, coedwigaeth, chwareli llechi, adeiladau cynaladwy. Pob math o weithgareddau llawn hwyl, gweithdai, celfyddydau, sgyrsiau ac adloniant i'r teulu cyfan.

**► Mwy o wybodaeth ar [www.cat.org.uk](http://www.cat.org.uk) neu ffoniwch 01654 705950**

## Hwyl 'Steddfodol

CWMNI Ynni Gwynt Cymru fydd yn noddi cyngerdd agoriadol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe ar nos Sul, Mai 29. Addewir noson hwyliog o dalent leol. Llai o hwyl ar y diwydiant ynni gwynt yn yr ardal: gwrthodwyd cais corfforaeth fawr RWE npwer (gyda'r Arglwydd ffiwdal Dug Beaufort y tu ôl iddynt) i osod ffarm wynt ar Fynydd y Gwair — tafliad carreg o faes yr eisteddfod — gan Lywodraeth y Cynulliad yn Chwefror .

**► Am docynnau neu ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod: [eisteddfod2011@urdd.org](mailto:eisteddfod2011@urdd.org) neu ffoniwch 0845 257 1639**

## Gwylio'r Gwanwyn

BYDD Parc Coedwig Afan yn cynnal Penwythnos Gwylio'r Gwanwyn ar Sadwrn, Ebrill 30, a Sul, Mai 1. Mae'r parc ond ychydig filltiroedd i fyny Cwm Afan o dref Port Talbot. Bydd yno weithgareddau, cwisiau, dysgu paentio lluniau adar gydag artist bywyd gwyllt. Am ddim ond cost y parcio. Ac ar gyfer y bore godwyr go iawn, am 5.30 ar fore Sul, taith gerdded gyda'r cyfle i fwynhau Côr y Bore Bach – am £5 gan gynnwys brecwast.

**► Mwy o wybodaeth ar: [www.afanforestpark.co.uk](http://www.afanforestpark.co.uk) neu ffoniwch 01639 850564**

**HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD**

**Am *Wybodaeth Gostau hysbysebu yn* Y Papur Gwyrdd, ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn (tua) Mai 6 ar gyfer rhifyn Mehefin / Gorffennaf**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion a syniadau i'r** Papur Gwyrdd **— erbyn Mai 6 os ar gyfer rhifyn Mehefin / Gorffennaf.
Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

# BWRLWM GWYRDD YSGOL BOTWNNOG

Ffilmio gydag Uned 5







UCHOD: Y Clwb Beicio'n ymarfer. CHWITH: Paratoi llysiau o'r ardd.



CHWITH: Dechrau tyllu ar gyfer pwll bywyd gwyllt



UCHOD: Casglu sbwriel ar draeth Porth Neigwl.

Adroddiad ar dudalen 7

## PROBLEMAU WRTH I YNNI'R HAUL OLEUO'R NOS

**PAN ofynodd aelod ifanc, caredig a threfnus o'n teulu fis Awst diwethaf beth hoffem ei gael fel anrheg Nadolig, ein hateb diolchgar oedd – *Unrhywbeth ar gyfer yr ardd.***

Meddwl oeddem am offer garddio, potiau pert, nyth adar neu rywbeth tebyg. Pethau syml.

Beth gawson ni oedd chwech o oleuadau sylweddol eu maint sy'n defnyddio ynni'r haul i egnio batris er mwyn creu goleuni wedi iddi nosi.

Whare teg, roedd ein perthynas yn gwybod ein bod wedi troi'n 'wyrdd' a'n bod yn canmol ynni adnewyddol. Popeth yn iawn, ond am y ffaith ein bod yn credu hefyd y dylai'n gardd fod yn dywyll yn y nos — a bod y creaduriaid sy'n byw a bod ynddi yn debyg i gytuno â ni.

Ond mae cwestiynau dyrys o gwrteisi, diolchgarwch a

## Y byd a'r aelwyd

### Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

diplomyddiaeth deuluol yn codi mewn sefyllfa fel hyn. A buom yn ystyried. Yn y cyfamser, o chwilfrydedd aethom ati i roi'r goleuadau at ei gilydd, gan ddefnyddio cydweithrediad parod yr haul i'w egnio yn ystod y dydd.





Pan ddaeth ein merch annwyl adref gyda'r hwyr y noson honno – wedi bod yng nghanol goleuadau llachar Abertawe – cymerodd un cip ar ffenestr ein drws cefn a holi gyda chryn fraw beth ar y ddaear oedd yn yr ardd. Roedd ein chwech golau newydd bellach yn disgleirio yno fel UFO oedd newydd ddisgyn o'r gofod.

Dyw pob penderfyniad yn ein tŷ ni ddim yn unfrydol. Ond y farn gytun y tro hwn oedd nad oedd angen cymaint o olau allanol arnom.

Cytunwyd, ar y llaw arall, y byddai dau o'r goleuadau efallai'n gallu goleuo'r stepiau at ein drws ffrynt. Ac y byddan nhw yno wrth i'n perthynas a'i theulu ddod ar ymweliad â ni o du hwnt i Glawdd Offa — gan wneud pawb yn hapus. A dyna a fydd, gyda'r haul yn gymorth i'r haelioni Nadoligaidd a fu.

Ond mae'r digwyddiad bach hwn ar ein haelwyd yn enghraifft o'r hyn y cyfeirir ato fel y *Jevons Paradox*, sef honiad bod gwneud pethau'n fwy effeithiol yn gallu arwain at fwy o ddefnydd gan danseilio'r hyn a enillwyd (mae hyn wedi bod yn destun dadl boeth yn y **New Yorker** yn ddiweddar).

Yn achos ein hanrheg, er bod goleuadau trydan tanwydd carbon yn annerbyniol oherwydd yr allyriadau nwyon tŷ gwydr a achosir, mae defnyddio goleuadau ynni haul lle nad oedd goleuadau o'r blaen hefyd yn arwain at brosesau cynhyrchu sy'n achosi allyriadau carbon.

Ydy, mae bywyd yn gymhleth. Ac mae angen tipyn o oleuni i weld yn glir trwy'r dryswch. Ond yr ewyllys i geisio gweld sy'n bwysig.

NID brolio, ond am i chi gyd-lawenhau. Cawsom fil nwy arall. Llawenhau? Wel, ydym, gan nad yw'r gost wedi codi a'n defnydd o nwy wedi disgyn yn ystod oerfel Rhagfyr, Ionawr a Chwefror o gymharu a'r un cyfnod yn 2010 a 2009.

Ymddengys bod yr insiwleiddio, bwyler newydd, ffenestr ddwy-haen newydd, cawodydd ond pob yn ail ddydd, a cheisio cadw'n thermostat at 18$^{O}$C yn talu ffordd.

... A hefyd y teclyn bach newydd hwnnw sy'n ein rhybuddio mai'r peiriant golchi sy'n llyncu'r trydan – ynghyd â'r tegell! ... Hwyl — amser coffi!

*Hywel a Charlotte*

# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






## ... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

